

Awtistiaeth a Chyfyngiadau'r Coronafeirws

Cefndir

I bobl awtistig mae unrhyw newid yn y drefn ddyddiol yn gallu achosi gofid a phryder mawr. Mae gan lawer o bobl awtistig arferion, gweithgareddau a lleoliadau penodol sydd yn eu helpu i ymdopi â newidiadau. Oherwydd hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod angen gwneud addasiadau rhesymol i Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau'r Coronafeirws) (Cymru) 2020. Mae'r diwygiad i Adran 12 Rheoliad 8, 'Gadael y cartref i wneud ymarfer corff: canllawiau', yn nodi'r canlynol:

Fodd bynnag, mae'r rheoliad yn cydnabod hefyd y gall aros yn y tŷ am gyfnodau estynedig heb ryddhad waethygu cyflyrau meddyliol neu gorfforol penodol. Mae enghreifftiau o gyflyrau iechyd neu anableddau penodol yn cynnwys anableddau dysgu, awtistiaeth, dementia neu gyflyrau iechyd meddwl eraill y gellir eu lleddfu drwy ddilyn trefn sefydledig neu drwy wneud ymarfer corff yn yr awyr agored. Pan fyddai pobl â chyflyrau penodol (ynghyd â'u gofalmwr yn ôl yr angen) yn elwa o wneud ymarfer corff yn yr awyr agored yn fwy aml nag unwaith y dydd byddai hyn yn esgus rhesymol dros adael y cartref.

<https://llyw.cymru/gadael-y-cartref-i-wneud-ymarfer-corff-canllawiau>

Pryderon a datrysiadau

Mae'r newidiadau hyn wedi cael croeso cynnes gan lawer o bobl awtistig. Fodd bynnag, mae eu teuluoedd wedi mynegi pryderon ynghylch sut mae 'profi' bod rhywun yn awtistig, yn enwedig os ydynt yn cael eu stopio gan yr heddlu neu pan fo sawl gofalmwr yn cefnogi person i wneud ymarfer corff yn yr awyr agored, yn unol â'r cynllun gofal. Mae Swyddogion yr Heddlu hefyd wedi cysylltu â'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol i ofyn am arweiniad ynghylch y mater. Mae rhai awdurdodau lleol yng Nghymru wedi cynhyrchu 'cerdyn', ond nid yw hyn ymhob ardal. Felly, i gynorthwyo'r heddlu yn hyn o beth, rydym ni wedi ymgynghori gyda phobl awtistig, eu teuluoedd a'u gofalmwr a gwasanaethau ac ati, ac fe hoffem ni amlygu'r canlynol:

1. Mae rhai awdurdodau lleol a gwasanaethau wedi cynhyrchu ac anfon cardiau a llythyrau 'rydw i'n awtistig' at gleientiaid. Os yw'r llythyr ar bapur pennawd a gan gorff cydnabyddedig e.e. awdurdod lleol, bwrdd iechyd, y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol neu dîm cydnabyddedig fel y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol neu wasanaeth anableddau plant, yna dylai bod y llythyr hwnnw yn ddigon o dystiolaeth.
2. Mae gan gynllun 'Weli Di Fi' y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol frandio sy'n cael ei gydnabod yn eang ac mae gan lawer o bobl awtistig fandiau arddwrn, cardiau waled, sticeri car ac ati. Dyma'r ddolen yr ydym ni'n argymhell i chi ei

hysbysebu. Caiff y cynllun hwn ei ategu gan hyfforddiant ac adnoddau 'Gwasanaethau Brys ac Awtistiaeth' (<https://www.asdinfowales.co.uk/can-you-see-me>).



3. Mae llawer o bobl awtistig yn derbyn Taliad Annibyniaeth Bersonol, yn meddu ar fathodynau glas a llythyrau gan feddygon teulu ac ati, y mae modd eu defnyddio i gadarnhau eu bod yn awtistig.
4. Mae yna hefyd gynllun Waled Oren yng Nghymru - mae'r rhain yn cael eu defnyddio i gynorthwyo pobl anabl gyda'u hanghenion cyfathrebu wrth ddefnyddio cludiant cyhoeddus. Bydd y rhain hefyd yn dangos anghenion person awtistig yn glir (<https://www.asdinfowales.co.uk/orange-wallet>).

Y ffordd ymlaen

Argymhellir:

1. Bod yr wybodaeth yn cael ei chylchredeg i Unedau Cyswllt yr Heddlu a'i rhannu gyda'r awdurdodau/lluoedd perthnasol;
2. Bod y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol yn cylchredeg yr wybodaeth i rwydweithiau awtistiaeth (awdurdod lleol, iechyd ac ati);
3. Bod y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol yn cyhoeddi ac yn amlygu'r wybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar wefan [ASDinfoWales](https://www.asdinfowales.co.uk);
4. Cysylltu ag unrhyw wasanaeth brys sy'n chwilio am ragor o wybodaeth neu hyfforddiant;
5. Cysylltu â phobl awtistig a'u teuluoedd i fonitro gweithrediad y canllawiau diwygiedig.

Wendy Thomas, Arweinydd Proffesiynol Cenedlaethol Awtistiaeth

Sara Harvey, Arweinydd Strategol Cenedlaethol Awtistiaeth

Mai 2020